COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 4 MEHEFIN 2025 10:00

Presennol

Y Cynghorydd N Farr – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| A R Berrow | E L P Caparros | M J Evans | J Gebbie |
| W R Goode | M Jones | JC Spanswick | AJ Williams |
| E D Winstanley | | | |

Presennol – O Bell

| | | |
|---|---|---|
| D M Hughes | RL Penhale-Thomas | A Wathan |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Zoe Edwards | Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Angela Granville | Rheolwr Datblygu Busnes AD |
| Paul Miles | Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Kirsty Williams | Rheolwr Partneriaeth a CSP |

**59. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr P Davies ac HM Williams. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Mehefin 2025 |

## 60. Datganiadau o fuddiant

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Fe wnaeth y Cynghorydd N Farr ddatgan buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda, fel Aelod o Unison sydd wedi rhoi un o'r Siarteri gerbron y gofynnir i'r Cyngor eu llofnodi.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd WR Goode ddatgan buddiant personol yn eitem 6 ar yr Agenda, fel Cadeirydd Canolfan Gymunedol MEM, Nant-y-moel. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Mehefin 2025 |

## 61. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion 19 Chwefror 2025 fel cofnod gwir a chywir.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd a'r Dirprwy Arweinydd, yn eu tro, i'r Swyddogion nodi, ar gyfer y dyfodol, fod angen rhestru'r camau gweithredu a godwyd yn y cyfarfod fel eitemau yn y cofnodion, er mwyn i'r Swyddogion perthnasol oedd yn cyflwyno fedru cymryd camau dilynol priodol.<br><br>Nododd y Cadeirydd o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor, mewn eitem flaenorol ynghylch Gwahaniaethu mewn Ysgolion fod ffurflenni adrodd wedi cael eu trafod mewn perthynas â gweithredoedd o wahaniaethu hiliol. Fodd bynnag, roedd yna feysydd eraill o wahaniaethu lle dylid ymestyn hyn, er enghraifft, bwlio, ac yn y blaen. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Mehefin 2025 |

## 62. Cylch Gwaith Pwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb a Chysylltiadau â Chyflogeion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>(1) Bod Pwyllgor y Cabinet ar Gydraddoldeb a Chysylltiadau â Gweithwyr wedi nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad hwn ac yn cytuno ar yr eitemau ar yr agenda fel y'u nodwyd ym mharagraff 3.6 o'r adroddiad.<br>(2) Y dylid nodi ymhellach, o ran paragraff 3.6 o'r adroddiad, y dylid ychwanegu rhagor o eitemau a nodwyd gan aelodau'r Pwyllgor, yn ychwanegol at yr hyn a nodwyd yn y Flaenraglen Waith barhaus, |

| | |
|---|---|
| | at agendâu cyfarfodydd yn y dyfodol |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Mehefin 2025 |

## 63. Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb yn y Gweithlu (2024/2025)

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>(1) Bod Pwyllgor y Cabinet dros Gydraddoldeb a Chysylltiadau â Gweithwyr yn nodi'r wybodaeth oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn ac yn yr Atodiadau oedd ynghlwm wrtho.<br><br>(2) Bod y Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol yn derbyn adroddiad yn y dyfodol ar y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i aelodau a gweithwyr o fewn yr awdurdod lleol, er mwyn canfod a oes angen unrhyw newidiadau i hyn, ac i ystyried hefyd a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r rhai a ystyrir yn orfodol a/neu'n ddewisol.<br><br>(3) Y dylid ymgysylltu ymhellach â'r staff ar bwnc Diwygio Lles. Yn unol â hynny, y dylid ystyried ymchwilio ymhellach i Daliadau Annibyniaeth Personol ac unrhyw effaith y gallai hyn ei chael ar ein gweithlu anabl, yn enwedig o ran unrhyw effaith bosibl o golli cyflog o ganlyniad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Mehefin 2025 |

## 64. Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>(1) Bod Pwyllgor y Cabinet dros Gydraddoldeb a Chysylltiadau â Gweithwyr yn nodi cynnwys yr adroddiad diweddaru hwn.<br><br>(2) Gan fod Ystafelloedd Assia yn dibynnu'n helaeth ar gyllid grant er mwyn cynnal y gwasanaeth, teimlai Pwyllgor y Cabinet ei bod yn bwysig wrth symud ymlaen archwilio rhai cyfleoedd 'ariannu' pellach drwy gyllideb graidd y Cyngor ac felly, bod Swyddogion i ystyried hyn fel cam gweithredu i'w ddilyn ymhellach. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Mehefin 2025 |

## 65. Diweddariad ar Gydraddoldebau Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod Pwyllgor y Cabinet dros Gydraddoldeb a Chysylltiadau â Gweithwyr wedi nodi'r diweddariad mewnol hwn oedd yn crynhoi'r cynnydd hyd yma yn erbyn Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) 2024–2028 |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Mehefin 2025 |

## 66. Llofnod y Siarter Cyflogaeth i Bobl Anabl a'r Siarter Gwrth-Hiliaeth

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod yr Aelodau wedi cymeradwyo llofnodi’r Siarter Cyflogaeth i Bobl Anabl a’r Siarter Gwrth-Hiliaeth ac y byddent yn croesawu adborth ynghylch cynnydd y ddau Siarter mewn cyfarfod priodol o’r Pwyllgor yn y dyfodol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Mehefin 2025 |

## 67. Adolygiad Blynyddol o Safonau Cymru

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod Pwyllgor y Cabinet dros Gydraddoldeb a Chysylltiadau â Gweithwyr wedi nodi'r adroddiad hwn a'r cynnydd a wnaed yn ystod 2024/2025 o ran cyflawni ei ddyletswyddau Iaith Gymraeg. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Mehefin 2025 |

## 68. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Nid oedd dim eitemau brys |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 4 Mehefin 2025 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn Time Not Specified